Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwent
Public Services Board

Tîm Iechyd Cyhoeddus
Gwent
Public Health Team

# The Gwent Best Start in Life: Community of Practice Quarterly Newsletter

## Giving EVERY baby and child the best start in life

Winter Edition 2025/26



# Welcome to Our First Edition

**Happy New Year & welcome to the first edition of the Gwent Best Start in Life Community of Practice e-newsletter**! We're excited to kick off 2026 with a space where Early Years Professionals across Gwent can connect, share learning, celebrate successes, and champion our shared ambition: giving **EVERY** baby and child the best start in life.

Across the region, practitioners are already making a real difference by improving early childhood outcomes, reducing inequalities and supporting families. This Community of Practice brings that work together, helping us share ideas, showcase achievements, and strengthen collaboration across the early years system.

**This is your community**: shaped by your experience, expertise and commitment to improving the lives of babies, children and families in Gwent. Central to this is our commitment to ensuring that the voices of those with lived experience inform our priorities, content and future learning.

# Get Involved: Gwent Child Developmental Event

**Would you like to get involved in shaping how we support children's development across Gwent?**

As an Early Years Professional, you are invited to join the **Gwent Child Development Event** – a collaborative session to share your experiences, learn from colleagues and explore how parents, carers, early years settings, programmes and schools can work together to achieve the best outcomes for children.

The session will also focus on preparing children and families for the transition into reception and identifying the support and resources that would most benefit those experiencing poverty or from under-served groups.

**Save the date: Thursday 12 February 2026**

CLICK HERE or scan the QR code to find out more and reserve your place!

# **Meet the Leadership Group**

The Best Start in Life Leadership Group brings together senior partners from across Gwent and sits under the Gwent Public Services Board (PSB). As one of the PSB's four priority Areas of Focus, the Group provides strategic leadership to support a coordinated, evidence-informed, whole-system approach to improving early childhood outcomes across the region.

The Group sets the strategic direction for Best Start in Life through **11 Ambitions for Action**, which guide how partners work together to improve outcomes, reduce inequities and strengthen early intervention. Its approach is underpinned by children's rights, proportionate universalism and a strong focus on collaboration, data and evidence.

Find out more about the Gwent PSB and its Four Areas of Focus on their website. CLICK HERE



**Eryl Powell,**
Consultant in Public Health, ABUHB



**Keri Cole,**
Director of Education, CCBC



**Luisa Munro-Morris,**
Strategic Director for Children, Young people & Families, BGCBC



**Jason O'Brien,**
Strategic Director for Children and Families, TCBC



**Tanya Evans,**
Strategic Director, NCC





**Jane Rogers,**
Strategic Director - Social Care & Safeguarding, MCC



**Kavitha Pasunuru,**
Divisional Director for Families and Therapies, ABUHB

# Stay Connected

Follow the links below to explore upcoming webinars, conferences and training across the region!

## Nicotine Discovery Report Webinar

The **Nicotine Discovery Report** explores why people across Gwent choose to use or avoid nicotine products. A forthcoming webinar, scheduled for the **9th February 2026**, will share key findings, with a particular focus on concerns around children and young people's use of nicotine. It will also explore behaviours that enable nicotine use, the challenges linked to quitting and what the evidence means for prevention and education.



CLICK HERE



## Building Positive, Supportive Schools

Join us on **Wednesday 25 February 2026** at Islwyn Indoor Bowling Centre, Pontllanfraith for the **Embedding Restorative Approaches in Schools Conference**.

See practical techniques in action, hear from schools leading the way and learn how to strengthen relationships and wellbeing across your school. This is your chance to be part of a safer, more positive school community.


CLICK HERE

## Living Life to the Full - Training to Support Families

Are you passionate about supporting mental wellbeing during pregnancy and early parenthood? Join this **online session on 17th March 2026, 12:45-1:45pm**, led by Professor Chris Williams, developer of the Living Life to the Full (LLTTF).

This virtual session will explore LLTTF pre and postnatal mental health **resources and courses** which are available free via the **Melo Cymru** website. You'll gain practical skills using these resources to enhance your toolkit and empower the families you work with.

Email **Admin_ABGPHT@wales.nhs.uk** to reserve your spot!



## The Catherine Thomas Award 2026

Do you know someone who has made a real difference to children or young people affected by domestic abuse? Or someone whose work empowers young people to feel safe, rebuild confidence and thrive?

The **Catherine Thomas Memorial Award** recognises outstanding individuals across Wales who provide support, advocacy, leadership, and positive change for young people impacted by domestic abuse.

If you know someone making a real difference, please submit a nomination by **1pm on 14 February 2026.**

CLICK HERE


# The Big Gwent Vaccination Conversation:
## What the Report Means for the Early Years

Vaccines are one of the greatest achievements in public health - they protect our communities from serious illness and, in many cases, save lives. Yet, in recent years we have seen a decline in vaccination uptake in Gwent - and we wanted to understand **why**.

As a result, **The Big Gwent Vaccination Conversation** report was born. The report explores data on vaccination uptake, is grounded in conversations with the people of Gwent, and captures the remarkable **journey of vaccines**, from scientific breakthroughs and determination, to becoming a **cornerstone of modern public health**. Here is a quick look at some of what we found.

CLICK HERE to read the full report!

**Uptake Matters!**
Across Gwent, uptake varies among those who are aged 0-7; some vaccines are reaching great levels of protection, while others still need more work.




**Listening to the Voices of our Community**
People want straightforward, culturally sensitive, evidence-based information: clear explanations of risks vs. benefits, real historical data, and personalised guidance from trusted Healthcare Professionals or helplines/ chatbots.

**The Health of Our Children is EVERYTHING**
**Children** wanted vaccination to feel like a celebration, not a worry. How you can help us create the next generation of vaccine superheroes:

- **Parents and carers:** power up the positivity — talk about vaccines, celebrate bravery and share stories of protection and pride.
- **Schools:** weave the science of vaccines into learning, showing that being vaccinated is one of the greatest acts of teamwork there is.
- **The NHS:** keep creating child-friendly spaces filled with warmth, reassurance, and reward — places that show every child they are strong, safe, and supported.

**Want More Information on Vaccinationss?**
'Vaccination Brief Advice' webinars coming soon!

**Downloadable Resources to Support You When Having Vaccination Conversations:**

- Vaccines in Action poster
- Vaccination Schedule poster
- A History of Vaccinations poster

# The Gwent Best Start in Life Community of Practice Quarterly Newsletter

Winter Edition 2025/26

# Your Voice. Your Ideas. Your Community

## Become a Member

Join the Gwent Best Start in Life Community of Practice by completing our **membership form**. Members will receive quarterly newsletters and e-bulletins featuring good practice, family insights, tools & data, programme updates and information on upcoming training opportunities and events.

Members will also be invited to bi-monthly webinars led by expert speakers, offering practical insight, discussion and shared learning on a range of Best Start in Life topics across the early years system. All webinars will be recorded and made available via the Community of Practice webpage.

Any Early Years Professional, working with babies, children or families in Gwent, is welcome to join and contribute.

## Our First Community of Practice Webinar

We're delighted to announce our first bi-monthly webinar: "Understanding the Impact of Trauma & Adversity on Child Development", delivered by Blackpool Better Start taking place on **4 February 2026 at 10:00am**.

Blackpool Better Start

This session will explore:

- how trauma and adversity impact child development,
- how services can work together to mitigate these impacts,
- examples of trauma-informed early years practice in Blackpool,
- how triage panels and relationship-based approaches ensure families receive the right support.


CLICK HERE **to register your spot!**

# We Want to Hear From You!

To submit updates, showcase your work, or share resources, complete our **online form**. The deadline for submissions for the Spring 2026 edition is **1 March 2026**. You can also get in touch at **ABB.BSiL.CoP@wales.nhs.uk**.

Please share this newsletter with colleagues to help us build a growing, vibrant network of Early Years Professionals across Gwent.

**Together, we can ensure EVERY baby and child has the best start in life.**




Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwent
Public Services Board

Tîm Iechyd Cyhoeddus
Gwent
Public Health Team

# Y Dechrau Gorau mewn Bywyd yng Ngwent: Cylchlythyr Chwarterol y Gymuned Ymarfer

**Galluogi BOB babi a phlentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd** Rhifyn y Gaeaf 2025/26



## Croeso i'n Rhifyn Cyntaf

**Blwyddyn Newydd Dda a chroeso i rifyn cyntaf e-gylchlythyr Cymuned Ymarfer Dechrau Gorau mewn Bywyd Gwent!** Rydym yn gyffrous ein bod yn cychwyn 2026 gyda man ble gall Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar ledled Gwent gysylltu, rhannu yr hyn y maent yn ei dysgu, dathlu llwyddiannau, a hyrwyddo ein cyd-uchelgais: rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd **i BOB** babi a phlentyn.

Ar draws y rhanbarth, mae ymarferwyr eisoes yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy wella canlyniadau plentyndod cynnar, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi teuluoedd. Mae'r Gymuned Ymarfer hon yn dwyn y gwaith hwnnw ynghyd, ac mae hyn yn ein helpu i rannu syniadau, arddangos yr hyn sy’n cael ei gyflawni, a chryfhau cydweithio ar draws system y blynyddoedd cynnar.

**Dyma eich cymuned chi:** wedi'i llunio gan eich profiad, eich arbenigedd a’ch ymrwymiad i wella bywydau babanod, plant a theuluoedd yng Ngwent. Wrth wraidd hyn mae ein hymrwymiad i sicrhau bod lleisiau'r rheiny sydd â phrofiad bywyd yn llywio ein blaenoriaethau, ein cynnwys a'r hyn y byddwn yn ei ddysgu yn y dyfodol.

## Cymryd rhan: Digwyddiad Datblygiad Plant Gwent

**Hoffech chi gymryd rhan yn y gwaith o siapio’r ffordd yr ydym yn cefnogi datblygiad plant ledled Gwent?**

Fel Gweithiwr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, fe'ch gwahoddir i ymuno â Digwyddiad Datblygiad Plant Gwent - sesiwn gydweithredol i rannu eich profiadau, dysgu gan gydweithwyr ac archwilio sut y gall rhieni, gofalwyr, lleoliadau blynyddoedd cynnar, rhaglenni ac ysgolion gydweithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant.

Bydd y sesiwn hefyd yn canolbwyntio ar baratoi plant a theuluoedd ar gyfer y cyfnod pontio i'r dosbarth derbyn a nodi'r gefnogaeth a'r adnoddau a fyddai o fudd mwyaf i'r rheiny sy’n wynebu tlodi neu’r rheiny o grwpiau sy’n cael eu tan-wasanaethu.

Cadwch y dyddiad: **Dydd Iau 12 Chwefror 2026**

CLICIWCH YMA neu sganiwch y cod QR i gael gwybod mwy a chadw eich lle!

# Cwrdd â'r Grŵp Arweinyddiaeth

Mae Grŵp Arweinyddiaeth y Dechrau Gorau mewn Bywyd ynuwch bartneriaid o bob cwr o Went ac mae'n eistedd o dan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (PSB). Fel un o bedwar Maes Ffocws blaenoriaeth y BGC, mae'r Grŵp yn darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn cefnogi dull system gyfan, cydlynol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o wella canlyniadau plentyndod cynnar ar draws y rhanbarth.

Mae'r Grŵp yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y Dechrau Gorau mewn Bywyd drwy 11 Uchelgais ar gyfer Gweithredu, sy'n rhoi arweiniad o ran y ffordd y mae partneriaid yn cydweithio i wella canlyniadau, lleihau anghydraddoldebau a chryfhau ymyrraeth gynnar. Yn sail i'w ddull mae hawliau plant, cyffredinoliaeth gymesur a ffocws cryf ar gydweithio, data a thystiolaeth.

Dysgwch fwy am BGC Gwent a'i Bedwar Maes Ffocws ar eu gwefan CLICIWCH YMA



**Eryl Powell,**
Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, BIPAB



**Keri Cole,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, CBSC



**Luisa Munro-Morris,**
Cyfarwyddwr Strategol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, CBSBG



**Jason O'Brien,**
Cyfarwyddwr Strategol Plant a Theuluoedd, CBST



**Tanya Evans,**
Cyfarwyddwr Strategol, CDC





**Jane Rogers,**
Cyfarwyddwr Strategol – Gofal Cymdeithasol a Diogelu, CSF



**Kavitha Pasunuru,**
Cyfarwyddwr Is-adrannol Cynorthwyol Teuluoedd a Therapïau, BIPAB

# Cadw Mewn Cysylltiad

Dilynwch y dolenni isod er mwyn dysgu mwy am y gweminarau, cynadleddau a hyfforddiant a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos ledled y rhanbarth!

## Lansio Adroddiad Darganfod Nicotin

Mae'r **Adroddiad Darganfod Nicotin** yn archwilio pam mae pobl ledled Gwent yn dewis defnyddio neu osgoi cynhyrchion sy'n cynnwys nicotin. Bydd gweminar, yn cael ei chynnal ar **9fed Chwefror 2026**, yn rhannu canfyddiadau allweddol, ac yn rhoi ffocws penodol ar bryderon ynghylch defnydd plant a phobl ifanc o nicotin.



Bydd hefyd yn archwilio ymddygiadau sy'n galluogi defnyddio nicotin, yr heriau sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau iddi a beth mae'r dystiolaeth yn ei olygu o ran atal ac addysg. CLICIWCH YMA

## Adeiladu Ysgolion Cadarnhaol, Cefnogol




Ymunwch â ni ddydd **Mercher 25 Chwefror 2026** yn Canolfan Bowls Dan Do Islwyn, Pontllanfraith ar gyfer Cynhadledd: Gosod Dulliau Adferol mewn Ysgolion.

Gweler dechnegau ymarferol yn cael eu dangos, gwrandewch ar ysgolion sy'n arwain y ffordd, a dysgwch sut i gryfhau perthnasoedd a llesiant ar draws eich ysgol. Dyma'ch cyfle i fod yn rhan o gymuned ysgol fwy diogel a positif. CLICIWCH YMA

## Byw Bywyd i'r Eithaf - Hyfforddiant i Gefnogi Teuluoedd

Ydych chi'n angerddol am gefnogi lles meddyliol yn ystod beichiogrwydd a magu plant yn ystod y blynyddoedd cyntaf? Ymunwch â'r **sesiwn ar-lein hon ar 17 Mawrth 2026, 12:45-1:45pm,** dan arweiniad yr Athro Chris Williams, datblygwr Byw Bywyd i'r Eithaf (LLTTF).



Bydd y sesiwn rithwir hon yn archwilio **adnoddau a chyrsiau** iechyd meddwl cyn ac ôl-enedigol LLTTF sydd ar gael am ddim trwy wefan **Melo Cymru**. Byddwch yn meithrin sgiliau ymarferol gan ddefnyddio'r adnoddau hyn er mwyn gwella'ch pecyn cymorth a grymuso'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. E-bostiwch **Admin_ABGPHT@wales.nhs.uk** i archebu eich lle!

## Gwobr Catherine Thomas 2026

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant neu bobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig? Neu rhywun y mae eu gwaith yn grymuso pobl ifanc i deimlo'n ddiogel, ailadeiladu hyder a ffynnu?

Mae **Gwobr Goffa Catherine Thomas** yn cydnabod unigolion rhagorol ledled Cymru sy'n darparu cefnogaeth, eiriolaeth, arweinyddiaeth ac yn creu newid cadarnhaol i bobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig.

Os ydych chi'n adnabod rhywun sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, cyflwynwch enwebiad erbyn **1pm ar 14 Chwefror 2026.** CLICIWCH YMA


# Y Sgwrs Fawr ar Frechu yng Ngwent:
## Beth mae'r Adroddiad yn ei Olygu i'r Blynyddoedd Cynnar

Brechlynnau yw un o'r cyflawniadau pwysicaf ym maes iechyd y cyhoedd - maent yn amddiffyn ein cymunedau rhag salwch difrifol ac, mewn llawer o achosion, yn achub bywydau. Ac eto, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld dirywiad yn y nifer sy'n derbyn brechiadaug Ngwent - ac roeddem eisiau deall **pam**.

O ganlyniad, ganwyd adroddiad **Y Sgwrs Fawr am Frechu yng Gwent** . Mae'r adroddiad yn edrych yn fanwl ar ddata ar nifer y bobl sy'n cael eu brechu, mae wedi'i seilio ar sgyrsiau gyda phobl Gwent, ac mae'n cofnodi taith ryfeddol brechlynnau, o ddatblygiadau gwyddonol a phenderfyniad, i ddod yn gonglfaen iechyd cyhoeddus modern. Dyma gip olwg ar rai o'r canfyddiadau.

CLICIWCH YMA i ddarllen yr adroddiad llawn!

**Mae'r Niferoedd yn Bwysig!**
Ledled Gwent, mae'r nifer sy'n cael brechlynnau'n amrywio ymhlith y rheiny sydd rhwng 0 a 7 oed — mae rhai brechlynnau'n arwain at lefelau gwych o ran amddiffyniad, ond mae angen mwy o waith ar eraill o hyd.




### Gwrando ar Leisiau ein Cymuned
Mae pobl eisiau gwybodaeth syml, sy'n sensitif yn ddiwylliannol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth: esboniadau clir o risgiau yn erbyn manteision, data hanesyddol go iawn, ac arweiniad personol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol dibynadwy neu linellau cymorth/sgwrsbotiau.

### Iechyd Ein Plant yw POPETH
Roedd **plant** eisiau i frechu deimlo fel dathliad, nid fel rhywbeth i bryderu yn ei gylch. Sut allwch chi ein helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o uwcharwyr brechu:

- **Rhieni a gofalwyr:** hybu positifrwydd — siaradwch am frechlynnau, dathlwch ddewrder, a rhannwch straeon am amddiffyn a balchder.
- **Ysgolion:** plethwch wyddoniaeth brechlynnau i mewn i ddysgu, gan ddangos bod cael eich brechu yn un o'r pethau gorau y gallwch ei wneud fel tîm.
- **Y GIG:** daliwch ati i greu mannau sy'n gyfeillgar i blant ac sy'n llawn cynhesrwydd, sicrwydd a gwobr — mannau sy'n dangos i bob plentyn eu bod yn gryf, yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi.

**Eisiau Mwy o Wybodaeth am Frechiadau?**
'Gweminarau 'Cyngor Byr ar Frechu' yn dod yn fuan!

**Adnoddau y gellir eu lawrlwytho i'ch cefnogi wrth gael sgyrsiau am frechu:**
- Poster Brechlynnau ar Waith
- Posteri Iechyd Brechu
- Poster Hanes Brechlynnau

# Cylchlythyr Chwarterol Cymuned Ymarfer Y Dechrau Gorau Mewn Bywyd yng Ngwent

Rhifyn y Gaeaf 2025/26

## Eich Llais. Eich Syniadau. Eich Cymuned

### Dewch yn Aelod

Ymunwch â Chymuned Ymarfer Dechrau Gorau mewn Bywyd Gwent trwy gwblhau ein **ffurflen aelodaeth**. Bydd aelodau'n derbyn cylchlythyrau chwarterol ac e-fwletinau a fydd yn cynnwys arfer da, mewnwelediadau gan deuluoedd, offer a data, diweddariadau ar y rhaglen a gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi a digwyddiadau sydd ar y gweill.

Bydd aelodau hefyd yn cael eu gwahodd i weminarau bob deufis dan arweiniad siaradwyr arbenigol. Bydd y rhain yn cynnig mewnwelediad ymarferol, trafodaeth a dysgu ar y cyd ar ystod o bynciau sy'n ymwneud â Dechrau Gorau mewn Bywyd ar draws system y blynyddoedd cynnar. Bydd pob gweminar yn cael ei recordio ac yna bydd ar gael trwy dudalen we'r Gymuned Ymarfer.

Mae croeso i unrhyw Weithiwr Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar, sy'n gweithio gyda babanod, plant neu deuluoedd yng Ngwent, ymuno a chyfrannu.

### Ein Gweminar Cymuned Ymarfer Gyntaf

Rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein gweminar cyntaf, a fydd yn cael ei chynnal ar 4 Chwefror am 10:00yb. Wedi hyn, bydd y gweminarau'n cael eu cynnal bob deufis: "Deall Effaith Trawma a Niwed ar Ddatblygiad Plant", a gyflwynir gan Blackpool Better Start.

Bydd y sesiwn hon yn archwilio:

- sut mae trawma a niwed yn effeithio ar ddatblygiad plant,
- sut y gall gwasanaethau gydweithio i liniaru'r effeithiau hyn,
- enghreifftiau o ymarfer blynyddoedd cynnar sy'n seiliedig ar drawma yn Blackpool,
- sut mae paneli brysbennu a dulliau seiliedig ar berthnasoedd yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth gywir.

CLICIWCH YMA **i gofrestru eich lle!**

## Rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

I gyflwyno diweddariadau, arddangos eich gwaith, neu rannu adnoddau, cwblhewch ein **ffurflen ar-lein**. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau ar gyfer rhifyn Gwanwyn 2026 yw **1 Mawrth 2026** Gallwch hefyd gysylltu ar **ABB.BSiL.CoP@wales.nhs.uk**.

Rhannwch y cylchlythyr hwn gyda chydweithwyr er mwyn ein helpu i adeiladu rhwydwaith fywiog, sy'n tyfu, o Weithwyr Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar ledled Gwent.

**Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod POB plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd**

